# Canllawiau cyhoeddusrwydd cyn yr etholiad

## Etholiad Chomisiynydd Heddlu a Throseddu – Ardal Heddlu Dyfed Powys

2 Mai, 2024

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Powys

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

# Canllawiau i Gynghorwyr a Gweithwyr yn y cyfnod cyn Etholiad Chomisiynydd Heddlu a Throseddu - 2 Mai, 2024

**RHAGARWEINIAD**

Bydd etholiad Chomisiynydd Heddlu a Throseddu yn cael eu cynnal ar **2 Mai, 2024**.

Bydd pob un o'r pedwar Awdurdod Lleol yn rhanbarth Ardal Heddlu Dyfed Powys yn gweinyddu'r etholiad ar gyfer ardaloedd pleidleisio ei Awdurdod Lleol (Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro, a Phowys).

Bydd yr etholiad yn cael ei weinyddu gan Eifion Evans, Cyngor Sir Ceredigion fel y Swyddog Canlyniadau Ardal Heddlu.

Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i holl aelodau, gweithwyr a chontractwyr y Cyngor.

Bydd yr Hysbysiad Etholiad yn cael ei gyhoeddi ar **25 Mawrth, 2024,** a chaiff y cyfnod rhwng yr hysbysiad hwn a'r etholiad ei alw'n **'gyfnod yr etholiad'**. Mae'r protocol hwn yn berthnasol yn ystod cyfnod yr etholiad h.y. o 25 Mawrth 2024 – 2 Mai 2024 (yn gynwysiedig).

**CANLLAWIAU**

1. Yn ystod cyfnod yr etholiad, mae angen i'r Cyngor sicrhau ei fod yn ddiduedd.

2. Ni ddylai'r Cyngor roi amlygrwydd na chyhoeddusrwydd i unrhyw blaid wleidyddol a/neu ymgeisydd penodol. Felly, yn ystod y cyfnod hwn, mae angen cymryd gofal ynglŷn â materion a gyflwynir i'r Cyngor, y Bwrdd Gweithredol/Cabinet a'r Pwyllgorau neu faterion sy'n cael sylw'r cyhoedd ac a welir fel rhai sy'n gysylltiedig ag unrhyw blaid wleidyddol a/neu ymgeiswyr unigol.

3. Dylai'r Cyngor ymdrechu i gymryd safiad niwtral a dylai osgoi gwneud unrhyw beth neu ddweud unrhyw beth y gellid tybio ei fod yn hyrwyddo plaid wleidyddol a/neu ymgeisydd unigol.

4. Ni ddylai cyhoeddusrwydd y Cyngor ddelio â materion dadleuol neu wleidyddol sensitif ar lefel leol neu genedlaethol na chyflwyno barn, cynigion neu argymhellion yn y fath fodd sy'n ei uniaethu ag unrhyw bleidiau gwleidyddol a/neu ymgeiswyr unigol.

5. Nid yw'r gyfraith mewn perthynas â'r mater hwn yn tawelu'r Cyngor, ond nid yw ond yn ceisio atal arian cyhoeddus rhag cael ei ddefnyddio i gefnogi pleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr unigol.

6. Gall ymgeiswyr ryddhau eu datganiadau eu hunain i'r wasg neu gyhoeddi gwybodaeth gyhoeddus yn gyfreithlon, er mwyn ceisio dylanwadu ar eu hetholwyr. Fodd bynnag, dylai fod yn glir fod y rhain yn cynrychioli barn pleidiau gwleidyddol a/neu ymgeisydd unigol hynny ac nid barn y Cyngor.

7. Yn ystod y cyfnod hwn, ni fydd y Cyngor, y cynghorwyr na'r gweithwyr yn gwneud datganiadau a allai effeithio ar blaid wleidyddol a/neu'r ymgeisydd unigol mewn unrhyw ffordd.

8. Ni ddylai'r Cyngor gynnal gweithgareddau na gwneud unrhyw gyhoeddiadau neu benderfyniadau sy'n rhoi mantais bleidiol neu etholiadol i unrhyw plaid gwleidyddol a/neu ymgeisydd penodol neu y gellid dod i'r casgliad eu bod yn gwneud hynny.

9. Dylai ymarferiadau ymgynghori barhau fel arfer yn ystod cyfnod yr etholiad ar yr amod nad oes cyfeiriad at blaid wleidyddol a/neu ymgeisydd unigol neu gyswllt â hwy.

10. Rhaid i weithwyr fod yn ddiduedd a sicrhau nad yw adnoddau cyhoeddus yn cael eu defnyddio at ddibenion unrhyw blaid wleidyddol a/neu ymgeisydd unigol. Dylai llythyron neu negeseuon e-bost gan bob ymgeisydd gael eu trin yn gyfartal ac ni ddylid defnyddio cyfleusterau'r Cyngor ar gyfer argraffu, cyfieithu a phostio deunydd cyhoeddusrwydd yr ymgeiswyr. Rhaid i weithwyr beidio â darparu briffiau i'w defnyddio mewn dadleuon ymgyrchu/llenyddiaeth a deunydd cyhoeddusrwydd yr etholiad sy'n ymwneud ag ymgeiswyr unigol ac ni fydd gwefan na mewnrwyd y Cyngor yn cael eu defnyddio at y dibenion hyn.

11. Ni chaniateir i Gynghorwyr a Swyddogion Sir ddefnyddio eu cyfrif e-bost Cyngor ar gyfer unrhyw ddibenion ymgyrchu etholiadol.

12. Yn ystod cyfnod yr etholiad, ni all digwyddiadau a drefnir gan y Cyngor Sir neu a gynhelir o fewn sefydliad y Cyngor roi cyhoeddusrwydd na chefnogi unrhyw bresenoldeb neu neges gan unrhyw blaid wleidyddol a/neu ymgeisydd unigol.

13. Yn ystod cyfnod yr etholiad, dylid osgoi cyfarfodydd gydag ymgeiswyr, gwleidyddion neu ddeiliaid swyddi presennol oni bai eu bod yn gyfarfodydd rheolaidd (er enghraifft, cyfarfod corff partneriaeth) y mae'r unigolion dan sylw yn cymryd rhan ynddynt fel arfer. Felly, yn gyffredinol, dylai swyddogion beidio â gwahodd ymgeiswyr i gyfarfodydd, cynadleddau, agoriadau neu ddigwyddiadau lansio yn ystod cyfnod yr etholiad.

14. Ni chaniateir i ymgeiswyr ddefnyddio ysgolion ac ystafelloedd cyfarfod cyhoeddus yn ystod y cyfnod cyn yr etholiad at ddibenion ymgyrchu. Hefyd, nid yw'n briodol i unrhyw bosteri neu sticeri plaid wleidyddola/neu unrhyw ymgeisydd ymddangos yn, ar neu o fewn swyddfeydd y cyngor, cartrefi preswyl, depo, ysgolion, cerbydau ac ati.

15. Gallwn gyhoeddi gwybodaeth ffeithiol am ymgeiswyr os gofynnir i ni wneud hynny gan y Swyddog Canlyniadau.

16. Dylai pob cyswllt â'r wasg fod trwy dîm Marchnata a'r Cyfryngau / Cyfathrebu yr awdurdod perthnasol a dylai unrhyw ddatganiadau gan y Cyngor gael eu priodoli i uwch-swyddog a enwir, yn unol â Phrotocol y Wasg a'r Cyfryngau yr awdurdod perthnasol. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, ni ddylai swyddogion etholedig roi cyfweliadau i'r cyfryngau yn ystod y cyfnod hwn – yn hytrach dylai cyfweliadau o'r fath gael eu rhoi gan uwch-swyddog priodol.

17. Ni chaiff ffotograffau o ymgeiswyr yn yr etholiad eu rhyddhau neu'u cyhoeddi gan y Cyngor.

18. Mae angen i bawb gymryd gofal arbennig mewn perthynas â defnyddio X (Twitter), Facebook, Instagram, blogio yn ogystal â'r holl gyfryngau cymdeithasol eraill.

19. Dylai swyddogion etholedig sy'n ysgrifennu colofn yn rheolaidd yn y wasg roi'r gorau i'r arfer hwnnw yn ystod y cyfnod hwn.

20. Os oes gan aelodau neu swyddogion unrhyw gwestiynau mewn perthynas ag amgylchiadau arbennig dylent gysylltu â:

**Ceredigion**

| **Enw** | **Rôl** | **Manylion Cyswllt** |
|---|---|---|
| Elin Prysor | Swyddog Monitro a Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu | 01545 572120 Elin.Prysor@ceredigion.gov.uk |
| Lowri Edwards | Dirprwy Swyddog Canlyniadau Lleol a Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd | 01545 572005 Lowri.Edwards@ceredigion.gov.uk |
| Tîm Cyfathrebu | Swyddogion Cyfathrebu | swyddfarwasg@ceredigion.gov.uk |
| Eifion Evans | Swyddog Canlyniadau Ardal Heddlu a Swyddog Canlyniadau Lleol | 01545 572004 RRO-PARO@ceredigion.gov.uk |

### Sir Gaerfyrddin

| Enw | Rôl | Manylion Cyswllt |
|---|---|---|
| Linda Rees-Jones | Swyddog Monitro / Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith | 01267 224010 LRJones@sirgar.gov.uk |
| Deina Hockenhull | Rheolwr Marchnata a'r Cyfryngau | 01267 224654 DMHockenhull@sirgar.gov.uk |
| Tîm Marchnata a'r Cyfryngau | Swyddogion Cyfryngau | swyddfawasg@sirgar.gov.uk |
| Wendy Walters | Swyddog Canlyniadau Lleol | 01267 224112 wswalters@sirgar.gov.uk |

### Sir Benfro

| Enw | Rôl | Manylion Cyswllt |
|---|---|---|
| Rhian Young | Swyddog Monitro | 01437 775595 rhian.young@pembrokeshire.gov.uk |
| Antony Topazio | Rheolwr Cyfathrebu | 01437 775387 antony.topazio@pembrokeshire.gov.uk |
| William Bramble | Swyddog Canlyniadau Lleol | William.bramble@pembrokeshire.gov.uk |

### Powys

| Enw | Rôl | Manylion Cyswllt |
|---|---|---|
| Clive Pinney | Swyddog Monitro / Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd | 01597 826746 / 07919 397354 clive.pinney@powys.gov.uk |
| John Evans | Rheolwr Cyfathrebu | 01597 826377 / 07484 215526 John.m.evans@powys.gov.uk |
| Lee Evans | Swyddog Cyfathrebu | 01597 826023 / 07769 640058 lee.evans@powys.gov.uk |
| Sandra Matthews | Swyddog Canlyniadau Etholaethol | 01597 826747 Sandra.matthews@powys.gov.uk |
| Emma Palmer | Swyddog Canlyniadau Lleol | Emma.Palmer@powys.gov.uk |